Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynaman

**Brynceunant**
**Brynaman**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 1AH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynaman

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynaman |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 275 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 226 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 23.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 46.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan Ysgol Brynaman amgylchedd cartrefol a chroesawgar, lle caiff disgyblion eu parchu gan yr holl staff. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu ystod dda o fedrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gryfder nodedig, ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn darparu gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda gan dîm o gynorthwywyr effeithiol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan weithredol yn eu gwersi. Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau priodol i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn dod yn ddysgwyr fwyfwy annibynnol o ganlyniad i fireinio dulliau addysgu yr ysgol yn unol â Cwricwlwm i Gymru. Mae disgyblion yn cael cyfrifoldeb i gynrychioli eu cyfoedion ar grwpiau gwahanol, fel y cyngor ysgol. Er hyn, nid yw eu rôl wedi datblygu’n llawn i gael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda ac yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan uwch arweinwyr eraill. Gyda'i gilydd, maent yn creu amgylchedd lle mae'r holl staff yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cydweithio’n ddiwyd fel tîm. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol, ac yn darparu her, pan fo'n briodol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gywir, gyda'r holl staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gael mewnbwn i’r broses. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae arweinwyr ym ymateb yn rhagweithiol i gefnogi disgyblion i gyrraedd yn brydlon a chyson i'r ysgol. Er hyn, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn parhau i gyrraedd yr ysgol yn hwyr ac yn gyffredinol, mae’r cyfraddau presenoldeb yn rhy isel.

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â’r mater lles a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A3 Datblygu rôl arwain disgyblion i gael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag ysgogi disgyblion i siarad Cymraeg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu hamser yn yr ysgol, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r disgyblion yn dechrau caffael medrau gwrando a siarad Cymraeg o oedran cynnar, gyda bron bob un yn ymateb yn briodol i orchmynion syml. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n siaradwyr cynyddol hyderus. Maent yn cynnig atebion i'r staff am amrywiaeth o gyd-destunau yn Gymraeg ac yn awyddus i sgwrsio gydag ymwelwyr. Ar frig yr ysgol, mae bron bob disgybl yn cyfathrebu'n naturiol yn Gymraeg mewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol y tu allan i'r dosbarth. Mae llawer yn adalw geirfa a thermau perthnasol sy'n gysylltiedig â thema'r dosbarth ac yn eu defnyddio'n fwriadus, er enghraifft wrth ddisgrifio tarddiad yr afon Aman. Mae'r disgyblion hynaf yn dechrau datblygu medrau gwrando a siarad mewn iaith ryngwladol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt gyflwyno gwybodaeth bersonol yn Ffrangeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau darllen. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ffurfiau a sain llythrennau o oedran ifanc. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drefnu cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud paned o de yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith, gyda'r mwyafrif yn goslefu'n fwriadus. Maent yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus i gywain gwybodaeth, er enghraifft wrth gasglu ffeithiau am hanes Cwm Tryweryn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael budd o weithgareddau penodol i gryfhau eu medrau i afael mewn offer cofnodi'n gynyddol gywir, sy'n eu paratoi'n effeithiol i ddechrau gwneud marciau. O ganlyniad i ddisgwyliadau clir ac uchel staff, mae safon cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion trwy'r ysgol yn gyson dda, gyda datblygiad amlwg ym medrau llawysgrifen disgyblion dros amser. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod eang o ffurfiau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu darnau ffeithiol i gyfleu gwybodaeth am Gastell Coch yn fedrus. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu darnau estynedig, gan ychwanegu manylion neu ddisgrifiadau perthnasol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n fwriadus yn Gymraeg a Saesneg gan ystyried gofynion y darllenwr. Er enghraifft, maent yn creu poster i gyfleu gwybodaeth am fasnach deg ac yn defnyddio cystrawen aeddfed wrth ysgrifennu erthygl papur newydd. Mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig yn Gymraeg gyda chywirdeb da, gan gynnwys manylion perthnasol, er enghraifft wrth greu testun perswâd i annog y cyhoedd i ymuno ag ymgyrch Merched Beca.

Mae bron bob disgybl y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dysgu geirfa mathemateg briodol o oedran ifanc. Maent yn canu rhigymau Cymraeg er mwyn adnabod rhifau, er enghraifft. Wrth i fedrau a hyder disgyblion gynyddu, maent yn datrys problemau ymarferol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gasglu'r nifer cywir o edafedd gwlân i greu 'gwallt' ar gyfer cymeriadau gwahanol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau trin data yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn didoli anifeiliaid wrth ystyried yr hyn maent yn ei fwyta gan ddefnyddio diagram Venn yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hynaf yn cofnodi gwybodaeth o ymchwiliadau gwyddonol yn ofalus, er enghraifft wrth greu trawstoriadau o sianel afon leol i ddangos y dyfnder, gan ysgrifennu dadansoddiad cywir o'r wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio medrau cyfrifo yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddatrys pa ganran o gynnyrch amrywiol sy'n perthyn i grwpiau bwyd penodol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ap yn hyderus i greu poster deniadol am frogaod. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth ddwyn stori gyfarwydd i gof a'i chyflwyno trwy greu animeiddiad gyda throslais. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o raglenni i gefnogi'r dysgu mewn gwersi iaith a thema yn rheolaidd, yn enwedig wrth gyflwyno gwybodaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn creu hysbysebion i hyrwyddo eu brand past dannedd newydd gan ddefnyddio cyfarpar ffilmio a sgrîn werdd yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol yn effeithiol. Maent yn arbrofi gyda phaent yn annibynnol ym mlynyddoedd isaf yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio offerynnau taro i gyfansoddi darnau o gerddoriaeth i gyd-fynd â stori Cantre'r Gwaelod yn effeithiol, er enghraifft. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn creu darnau aml-gyfrwng wedi eu hysbrydoli gan ddehongliad artist Cymreig o chwedl Blodeuwedd ac yn creu darnau o gerddoriaeth yn ddigidol i gyd-fynd â'r stori. Mae'r disgyblion hynaf yn creu modelau o daith afon yn grefftus ac yn actio'n fedrus i chwarae rôl newyddiadurwr yn adrodd ar y llifogydd diweddar yn Efrog Newydd.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau corfforol. Maent yn manteisio ar ystod o brofiadau gwahanol yn ystod sesiynau addysg gorfforol, fel gymnasteg, chwaraeon ac athletau. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cydbwyso a chydsymud yn llwyddiannus.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn, sy'n cyfrannu at greu awyrgylch dysgu effeithiol. Maent yn hynod gwrtais ac yn arddangos cwrteisi a pharch at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr o amgylch yr ysgol. Maent yn falch o'u hysgol, ac mae bron bob un yn teimlo'n hapus o fewn cymuned deuluol, gartrefol a chynhwysol sy'n bodoli ynddi. Mae hyn yn un o agweddau nodedig yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn effeithiol. Mewn gweithgaredd mathemateg, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn gwrando ar glip digidol gan gapten presennol tîm rygbi Cymru wrth ddatrys ystod o broblemau geiriol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gryfhau eu

hymdeimlad o berthyn i'r gymuned a'u dyheadau i'r dyfodol o weld cyn-ddisgybl yr ysgol yn llwyddo.

Mae'r disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni ac yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando arnynt. Mae gan y rhan fwyaf wybodaeth gadarn am ddiogelwch ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod sut i osod cyfrinair cadarn i gadw eu mannau gwaith digidol yn ddiogel a pha gamau i'w cymryd petai dieithryn yn cysylltu â nhw ar-lein.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda ac agwedd gadarn am sut i fyw, bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd ymgymryd â gweithgareddau i ymarfer y corff. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnal ymchwiliad ar effaith ymarfer ar guriad y galon, ac yna'n cael dyrannu calon go iawn. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn dwysáu eu chwilfrydedd tuag at eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu amrywiaeth o glybiau chwaraeon allgyrsiol ar ôl oriau'r ysgol, fel y clwb pêl-droed a phêl-rwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol aeddfed. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu posteri deniadol am effeithiau llygredd plastig ar y môr. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn trafod yn fedrus safiad Nelson Mandela yn erbyn deddfau apartheid. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a thegwch.

Maent yn dangos parch at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol a sensitif i'w syniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus eu medrau dysgu gan roi cynnig a dyfalbarhau ar ystod o weithgareddau heb ofni methu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith ac yn ymateb yn briodol i adborth oedolion, gan gyfeirio at feini prawf llwyddiant yn effeithiol wrth wirio cynnydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Pan gânt y cyfle, mae ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau cynnig ymateb i adborth eu cyfoedion. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, er enghraifft drwy gyfrannu at gynllunio'r gweithgareddau ar ddechrau themâu. Trwy hyn, maent yn nodi'r hyn maent yn dymuno ei wybod a'i ddarganfod ymhellach gan holi cwestiynau dychmygus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod iawn i gymryd cyfrifoldeb a chynnig syniadau am faterion sy'n ymwneud â'r ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar ychydig o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi archebu amrywiaeth o offer chwarae ar gyfer amseroedd egwyl a chinio. O ganlyniad, mae llai o anghytuno'n digwydd ar y buarth gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-chwarae'n ddedwydd â'i gilydd. Mae aelodau'r 'Criw Cymraeg' yn hybu'r Gymraeg ar draws yr ysgol yn briodol sy'n cyfrannu'n gadarn at ethos Cymreig hyfryd yn yr ysgol. Mae'r cyngor eco yn hybu parch at yr amgylchedd drwy gasglu sbwriel yn yr ardal leol a phlannu llysiau a planhigion i harddu tir yr ysgol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus. Fodd bynnag, nid yw rôl arwain disgyblion trwy weithgareddau'r cynghorau yn cael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol yn ddigon cyson.

Mae'r gyfradd presenoldeb wedi codi ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau i fod yn is na'r lefelau presenoldeb cyn y pandemig. Yn gyffredinol,

mae lefelau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion. Yn ogystal, mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion ac maent yn meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio fel tîm ac yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn grefftus sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hagweddau dysgu.

Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol. Mae arddangosfeydd yn gyfuniad o waith disgyblion, gwybodaeth ddefnyddiol, a murluniau deniadol sy'n dathlu'r ardal leol yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae athrawon yn gwneud defnydd crefftus o'r ardaloedd allanol. Er enghraifft, caiff disgyblion y dosbarth meithrin eu hysgogi wrth drafod stori Y Tri Mochyn Bach yn y goedwig, tra bod disgyblion Blwyddyn 6 yn creu modelau creadigol sy'n dangos llif a nodweddion afon. Mae staff yn trefnu ystod dda o ymweliadau addysgol pwrpasol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu, er enghraifft trwy ymweliadau gwaith maes wrth ddysgu am y Mynydd Du.

Mae athrawon yn cynllunio a darparu cwricwlwm eang sy'n adlewyrchu natur eu cyd-destun lleol. Mae'r gweithgareddau a gynllunnir yn creu ymdeimlad cryf o berthyn i'r pentref a'u hardal leol sy'n tanio diddordeb disgyblion i ddysgu mwy am eu hanes a'u diwylliant. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o chwedlau a hanes Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn gweithio ar ddarlunio a chreu gemwaith gan efelychu arddull artist lleol.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn modelu'r Gymraeg yn gadarn. Mae ganddynt ddisgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion wrth iddynt siarad Cymraeg. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau medrus a hwyliog i drochi'r disgyblion ieuengaf, ac i ymestyn geirfa a dealltwriaeth y disgyblion hynaf. Mae hyn yn cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu eu rhugldеr wrth siarad yn llwyddiannus dros amser. Er enghraifft, mae staff y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cyd-chwarae ochr-wrth-ochr â'r disgyblion ac yn manteisio ar bob cyfle i holi cwestiynau ac i gyfoethogi'r iaith. Ym Mlwyddyn 2, mae athrawon yn cynnal sesiynau cyd-ddarllen a thrafod straeon yn hynod effeithiol. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu ar draws ystod eang o ffurfiau, gyda chyfleoedd niferus iddynt gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu disgrifiad o Twm Sïon Bolgi, a'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu cerddi am rygbi yn grefftus. O ganlyniad i'r ddarpariaeth hon, mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o fod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg gan siarad yr iaith â balchder.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion feithrin eu medrau dysgu annibynnol drwy ddarparu sesiynau 'amser diddorol'. Mae staff yn cefnogi disgyblion i fod yn uchelgeisiol ac yn cynllunio gweithgareddau heriol i'w cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Er hyn, mewn ychydig o achosion,

mae athrawon yn darparu gormod o fframweithiau a thaflenni parod sy’n llesteirio gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chyflawni hyd orau eu gallu.

Mae athrawon yn gosod amcanion clir ar gychwyn gwersi sy’n galluogi disgyblion i adolygu eu cynnydd yn ystod ac ar ddiwedd y sesiwn. Mae’r athrawon yn rhannu disgwyliadau’n bwrpasol sy’n galluogi disgyblion i adolygu eu dysgu eu hunain. Maent yn holi cwestiynau medrus, gan annog disgyblion i ymestyn eu hatebion ac i adalw gwybodaeth a dealltwriaeth o wersi blaenorol.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig addas i helpu disgyblion wneud cynnydd. Maent yn defnyddio cod marcio sy’n gyson ar draws yr ysgol ac yn darparu sylwadau adeiladol i ddisgyblion am beth maent wedi ei wneud yn dda a’r hyn mae angen iddynt ei wella. Mae staff yn defnyddio dulliau asesu effeithiol, ac yn yr arfer orau maent yn herio disgyblion i fireinio eu gwaith ysgrifenedig yn fwriadus. Pan gânt y cyfle, mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau cynnig adborth addas i’w cyfoedion. Yn ddiweddar, mae athrawon yn dechrau addasu’r dulliau olrhain cynnydd disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddatblygiad a chynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar, gynhwysol a Chymreig lle mae disgyblion yn cael cefnogaeth effeithiol a hawl gyfartal i weithgareddau. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau cofrestru, mae staff yn darparu adnodd dyddiol i ddisgyblion nodi eu lles emosiynol. Mae hyn yn cyfoethogi hunan-barch a medrau cymdeithasol disgyblion yn dda, ac yn eu galluogi i rannu eu teimladau ag eraill yn llwyddiannus. Yn y ‘Clwb Lles’, mae staff yn darparu dulliau effeithiol i ddisgyblion ddysgu sut i fynegi teimladau a rheoli eu hemosiynau’n effeithiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion sy’n mynychu yn hapusach ac yn cwblhau gweithgareddau yn eu gwersi yn fwy hyderus.

Mae staff yn blaenoriaethu gofal emosiynol disgyblion yn llwyddiannus drwy weithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd lles. Darperir corneli lles hyfryd a phwrpasol o’r enw ‘Y Cwtsh Clyd’, sy’n cynnig darpariaeth werthfawr i’r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at yr amgylchedd dysgu gofalgar a chymwynasgar sy’n elfen nodedig yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a systemau olrhain cynnydd manwl a chlir i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae anghenion unigol yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r rhaglenni cefnogi, gan gynnwys lles emosiynol, llythrennedd a rhifedd, yn diwallu anghenion disgyblion ADY yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, maent yn cael eu cefnogi’n gadarn gan dîm o staff sy’n monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gynnydd disgyblion ADY.

Mae athrawon yn llunio proffiliau un tudalen manwl ar gyfer disgyblion ADY yn effeithiol, sy’n cynnwys eu diddordebau a disgrifiad o’r hyn sy’n rhoi cymorth iddynt lwyddo. Mae athrawon yn cynnwys disgyblion, rhieni a safbwyntiau ystod o asiantaethau allanol yn effeithiol i ddarparu cymorth arbenigol a buddiol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio’n hynod effeithiol gyda chanolfan addysg gyfagos i gefnogi datblygiad medrau bywyd annibynnol disgyblion penodol.

Mae cyfnodau myfyrdod boreol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn arwain trafodaethau bwriadus am amrywiaeth o faterion, megis parchu eraill a chydnabod gwahaniaethau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae staff yn defnyddio hanes Iesu'n troi dŵr yn win ar gyfer cyfleu bod gan bob disgybl a pherson ei werth unigryw. Cynigir cyfleoedd priodol i ddisgyblion astudio crefyddau eraill, megis Iddewiaeth a Siciaeth, sy'n rhoi cyfle addas i ddisgyblion astudio diwylliannau a thraddodiadau amrywiol.

Caiff disgyblion amser i fyfyrio a chefnogi eu dealltwriaeth o natur amlddiwylliannol cymdeithas yn dda, er enghraifft wrth astudio bywyd pobl ddylanwadol fel Rosa Parks a Betty Campbell. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu agweddau iach at ddathlu amrywiaeth.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, sy'n cynnwys hanesion lleol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ymweld ac yn dysgu am hanes Llyn Llech Owain ac yna'n cyflwyno'r stori yn eu geiriau eu hunain. Yn ogystal, mae athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o ymwelwyr i ehangu profiadau creadigol a mynegiannol disgyblion, er enghraifft wrth i gerddorion enwog Cymru ymweld â sinema leol i berfformio caneuon gyda disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gefnogi llawer o ddisgyblion i gydweithio'n effeithiol ac i fagu hyder wrth berfformio. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, maent yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd, ac wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan rygbi Cymru.

Mae arweinwyr yn dilyn ystod o brosesau priodol er mwyn diogelu disgyblion. Maent yn trefnu sesiynau buddiol ar gyfer disgyblion sy'n datblygu eu dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel, fel sesiynau am gyffwrdd priodol ac amhriodol. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn rheolaidd. Maent yn cydweithio â'r swyddog lles addysg i wella presenoldeb unigolion, ac yn hybu presenoldeb da trwy wobrwyo dosbarthiadau, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn parhau i fod yn faes i'w wella. Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, daeth mater diogelu i sylw'r tîm arolygu. Trafodwyd hwn gyda'r pennaeth a chynrychiolydd o'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir wedi ei seilio ar arwyddair yr ysgol, sef 'Byw i'r presennol ac edrych i'r dyfodol'. Gyda chefnogaeth gelfydd ei dîm rheoli, mae'n llwyddo i arwain yn effeithiol ar addasu a mireinio'r addysgeg i fodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru, tra'n cynnal disgwyliadau a safonau uchel. Mae diwylliant o gydweithio er lles ac addysg disgyblion yn amlwg trwy'r ysgol, gyda'r holl staff yn gweithredu'n ddiwyd i gyflawni nodau strategol yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae athrawon a chynorthwywyr wedi dechrau cyfrannu at y broses hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella, er enghraifft wrth lunio blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. O ganlyniad, mae gan yr holl staff berchnogaeth dros flaenoriaethau gwella presennol yr ysgol a dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei gyflawni.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol, a'r prif feysydd i'w datblygu. Maent yn ystyried ystod briodol o dystiolaeth er mwyn gwerthuso'r addysgu a chynnydd a chyflawniad disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr ac athrawon yn arsylwi gwersi yn rheolaidd ac yn craffu ar waith disgyblion. Yn ogystal, mae'r holl athrawon yn trafod llyfrau disgyblion mewn cyfarfodydd adrannol, sydd yn eu galluogi i adnabod a lledaenu arfer effeithiol. Er enghraifft, maent yn adnabod yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o ddarparu adborth i ddisgyblion.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn darparu adborth defnyddiol ar agweddau gwahanol o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelod o'r corff wedi ymweld â'r ysgol yn ystod amser cinio er mwyn trafod agweddau disgyblion tuag at gadw'n iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo'r agweddau hyn.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel a phendant o ran hybu'r iaith Gymraeg. Maent yn talu sylw teilwng i flaenoriaethau cenedlaethol wrth osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi llwyddo i drawsnewid prosesau i gefnogi disgyblion ADY yn unol â'r newidiadau deddfwriaethol, ac maent yn esblygu'r dulliau addysgu i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. At ei gilydd, maent yn cynnal diwylliant o ddiogelu yn briodol.

Gyda chefnogaeth y pennaeth, mae'r corff llawn yn gosod y gyllideb flynyddol yn briodol ac yn monitro gwariant yn graff, gan ystyried gofynion presennol yr ysgol a'r hinsawdd gyllidol hirdymor. Er enghraifft, maent yn adolygu strwythur staffio'r ysgol i sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion y disgyblion ac yn gynaliadwy. Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd bwriadus o'r grant datblygu disgyblion i gynnal sesiynau ymyrraeth i hybu medrau lles, llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu harferion proffesiynol. Maent yn mynychu sesiynau hyfforddiant, ac yn cael cyfleoedd buddiol i gydweithio ag ysgolion eraill i rannu arferion effeithiol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi ymweld ag ysgol arall er mwyn gwerthuso effaith meddalwedd penodol. Yn ogystal, maent yn cydweithio ag athrawon o'r ysgol uwchradd i gyflwyno sesiynau Ffrangeg ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr sydd yn ei dro'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   04/12/2023